| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**YNYS MÔN 2026** |
| | **Cystadleuaeth 84 – Unawd Cerdd Dant Bl.5 a 6** |
| | **Llaw, Tudur Dylan Jones** |

Rwyf finnau'n gallu estyn llaw
i gwrdd ag unrhyw un,
ac os oes pensil ynddi hi
rwy'n gallu tynnu llun.

Rwy'n gallu cydio'n dynn mewn sêt
wrth fynd ar reid mewn ffair,
a'i chodi hi i ddweud ffarwél
heb orfod siarad gair.

Rwy'n gallu canu'r nodau i gyd
ar biano, do re mi.
Rwy'n gallu anfon neges fach
i ddweud, 'Fe'th garaf di'.

Rwy'n gallu cario baich fy mrawd,
a mynd i'r maes i hau,
ond 'all fy nwylo wneud dim byd
os yw fy nwrn ar gau.